FEDERATION OF MASTER BUILDERS
Est. 1941

# Tyfu o'r sylfaen

## Maniffesto adeiladwyr i Gymru 2026





## Rhagair

"Mae sector adeiladu gref yn hanfodol i ddyfodol Cymru. Mae'n cynnwys crefftwyr lleol, medrus sy'n cynnal cymunedau ffyniannus ac yn cadw ein heconomi i symud. Ni yw'r busnesau sy'n hyfforddi'r genhedlaeth nesaf, sy'n cynnig gyrfaoedd hir dymor gan ddarparu cyfleodd i bobl ym mhob cwr o Gymru.

Mae adeiladwyr yn creu ac yn cynnal y llefydd sy'n siapio ein bywydau bob dydd - ein cartrefi, ein hysgolion, a'n hysbytai. Wrth i Gymru wynebu'r dasg o adeiladu mwy o gartrefi ac uwchraddio stoc dai sy'n heneiddio, adeiladwyr fydd yn troi uchelgais yn realiti.

Mae ein cyfraniad eisoes yn sylweddol, ond gyda'r gefnogaeth iawn gan y llywodraeth, gall ein cyfraniad fod yn fwy fyth."

**Gareth Jones**
Llywydd FMB Cymru

# Pam fod y sector adeiladu yn bwysig?

### Asgwrn cefn yr economi

- Mae tua 15% o holl fusnesau Cymru yn gweithredu o fewn amgylchedd y sector adeiladu, gan gynhyrchu tua 10% o weithgarwch economaidd cenedlaethol.
- Mae 99% o gwmnïau adeiladu yn fusnesau bach a chanolig (o'i gymharu â 62.6% ar draws yr economi ehangach), y rhan fwyaf â llai na 13 o weithwyr. Golyga hyn fod gwerth economaidd y sector wedi'i wreiddio'n lleol, gan gefnogi cymunedau ym mhob cwr o Gymru, nid yn unig mewn ardaloedd trefol neu incwm uchel.

### Cyflogwr arwyddocaol sy'n cynnig gyrfaoedd medrus a chyflog da

- Mae'r sector yn darparu un o bob 14 swydd yng Nghymru.
- Mae rolau adeiladu yn talu'n dda (£17.90/awr o'i gymharu â £15.10 ar draws yr economi) ac yn cynnig cyfleon cyflogedig wedi eu cynllunio i gychwyn gyrfa sy'n cefnogi symudedd cymdeithasol.
- Mae llawer o weithwyr yn symud ymlaen o fod yn grefftwyr i rolau goruchwylio, rheoli neu hunangyflogaeth, gan gynnig datblygiad gyrfa hir dymor.

'Mae **99%** o gwmnïau adeiladu yn fusnesau bach a chanolig.'







Cydnabyddiaeth i Adref Construction Ltd

### Yn hanfodol i gyflawni blaenoriaethau cymdeithasol

- Adeiladwyr sy'n darparu a chynnal cartrefi, ysbytai, ysgolion ac adeiladau cyhoeddus Cymru – y seilwaith craidd y mae cymunedau'n dibynnu arno.
- Gyda thua 20% o allyriadau Cymru yn dod o'n cartrefi, mae adeiladu'n ganolog i addasu hen adeiladau er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio ein stoc dai.



Cydnabyddiaeth i Adref Construction Ltd

# Mynediad i gartref: argyfwng sy'n tyfu

Mae llwyddo i gael tŷ i fyw ynddo wedi dod yn un o faterion mwyaf dybryd ein hoes. Gyda chyflogau'n methu cadw i fyny â phrisiau tai, mae dod yn berchennog ar dŷ yn gynyddol afrealistig i lawer. O ganlyniad, mae'r sector rhentu preifat wedi dod yn ddewis poblogaidd, ond mae'r galw cynyddol wedi gwthio pris rhent i fyny yn eithriadol, gyda chynnydd o 8.5% yn 2024–25.

Cwmnïau adeiladu tai, maint bach a chanolig, oedd yn gyfrifol am adeiladu 40% o gartrefi newydd yn yr 1980au hwyr, ond erbyn heddiw dim ond 9% y maent yn darparu. Mae gwrthdroi'r dirywiad hwn yn hanfodol i fynd i'r afael a'r argyfwng tai.

Os ydym am gael marchnad dai fwy cytbwys a chynhyrchiol, rhaid cefnogi busnesau bach a chanolig i lywio'r system gynllunio ac i leihau'r risgiau yn y broses i'w galluogi i ddarparu mwy o gartrefi.

## PRIF OFYNION

- **Gosod targedau cenedlaethol ym maes tai sydd yn uchelgeisiol ar draws pob deiliadaeth, gan godi mwy na'r hyn sydd ei angen yn ôl y galw er mwyn clirio'r gwaith sydd wedi cronni yn gyflym yn hytrach na'i ymestyn dros ddegawdau.**
- **Gorfodi, monitro a sicrhau dyraniad safleoedd bach mewn Cynlluniau Datblygu i alluogi cyfraniad gan fusnesau maint bach a chanolig.**
- **Codi'r trothwy ar gyfer datblygiadau mawr i 50 uned i leihau'r baich ar fusnesau bach a chanolig.**
- **Darparu mynediad i gyllid cyn i ganiatad cynllunio gael ei sicrhau i annog ymgeiswyr newydd a chefnogi arloesedd yn y farchnad.**



Cydnabyddiaeth i NBA Developments Ltd

# Prinder llafur sgilgar: pibell sydd wedi torri

Mae'r galw am lafur sgilgar o fewn y diwydiant adeiladu yn llawer uwch na'r cyflenwad, gyda busnesau bach a chanolig yn adrodd am effeithiau difrifol a pharhaus hyn ar eu busnesau. Mae'r argyfwng tai, ynghyd â'r angen i uwchraddio'r stoc tai bresennol, yn gofyn am lawer mwy o weithwyr sgilgar nag sydd ar gael ar hyn o bryd.

Bydd angen 2,200 o weithwyr ychwanegol y flwyddyn i fodloni'r galw, ond yn hytrach na thyfu, mae'r gweithlu'n crebachu o tua 300 bob blwyddyn. Gyda thraean o weithwyr dros 45 ac yn nesáu at ymddeoliad yn y 10–20 mlynedd nesaf, a dim ond 20% rhwng 16–24 oed, mae'r bibell gyflenwi yn beryglus o denau heb ymyrraeth bendant.

Nid denu prentistiaid i'r diwydiant adeiladu yw'r broblem greiddiol, ond methiant i'w troi yn weithwyr o fewn y diwydiant.

**PRIF OFYNION**

- **Arwain a chydlynu strategaeth sgiliau adeiladu genedlaethol.**
- **Ailgydbwyso cyllid Llywodraeth Cymru drwy leihau'r niferoedd o fyfyrwyr sydd ar gyrsiau adeiladu Addysg Bellach a chyfeirio'r arbedion i gymell busnesau bach a chanolig i gyflogi prentisiaid.**
- **Cyllido ar sail canlyniadau yn hytrach na mewnbynnau, gan wobrwyo darparwyr am gefnogi myfyrwyr i lwyddo i fyd cyflogaeth yn hytrach na dim ond cofrestru ar gyrsiau.**
- **Amrywio llwybrau mynediad gan gynnwys ariannu a chefnogi ehangu cynlluniau rhannu prentisiaid ledled Cymru.**

# Ôl-osod ac effeithlonrwydd ynni cartrefi

Mae gan Gymru un o'r stoc dai hynaf a lleiaf effeithlon o ran ynni yn Ewrop, gyda 33% o gartrefi wedi'u hadeiladu cyn 1919 – y flwyddyn y cyflwynwyd y safonau arwyddocaol cyntaf ar gyfer tai. Mae hyn yn cymharu â 22% yn Lloegr, 20% yn yr Alban a 16% yng Ngogledd Iwerddon.

Mae gan Gymru darged cyfreithiol i gyrraedd sero net erbyn 2050, ac mae tai yn ganolog i'r nod hwn. Mae ein 1.4 miliwn o gartrefi yn gyfrifol am tua 20% o'n hallyriadau cenedlaethol, ac amcangyfrifir fod 80% o'r cartrefi y byddwn yn byw ynddynt yn 2050 eisoes yn bodoli. Mae datgarboneiddio'r stoc bresennol felly'n hanfodol.

Mae safonau uchel ôl-osod hen adeiladau, megis PAS 2030 a PAS 2035, yn hanfodol ond rhaid iddynt fod yn gymesur. Mae yna beryg y bydd busnesau bach a chanolig yn cael eu heithrio gan ormod o fiwrocratiaeth a chostau. Canlyniad hynny fyddai gwneud y gwaith o ôl-osod yn niche yn hytrach na'n brif ffrwd.




Cydnabyddiaeth i Atlantic Dwellings Ltd

**PRIF GEISIADAU**

- **Datblygu strategaeth ôl-osod genedlaethol, hirdymor ar gyfer cartrefi preifat.**
- **Cyflwyno safon ansawdd haenog, cymesur ar gyfer ôl-osod tai preifat.**
- **Ymgorffori sgiliau treftadaeth ar draws pob gweithgaredd ôl-osod, yn hytrach na'u trin fel ychwanegiad.**

# Diogelwch Adeiladu a Safonau




Cydnabyddiaeth i R&M Williams Ltd



fmb.org.uk

Mae cystadlu â gweithwyr twyllodrus yn her fawr i adeiladwyr. Mae’r gweithredwyr hyn yn erydu ymddiriedaeth yn y diwydiant, yn tanseilio adeiladwyr proffesiynol gyda prisiau afrealistig o isel, ac yn tanbrisio gwaith crefftus, gan annog llai o bobl i ymuno â’r sector.

Gall unrhyw un yn y DU alw ei hun yn adeiladwr, heb orfod profi eu bod yn gymwys. Rydym yn galw am gynllun trwyddedu ar draws y DU i sicrhau lefel sylfaenol o gymhwysedd.

Yn sgil trychineb Grenfell, mae diwygiadau fel Deddf Diogelwch Adeiladu a Bil Diogelwch Adeiladu (Cymru) wedi ceisio codi safonau. Er ein bod yn cefnogi’r mesurau hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda’r diwydiant i godi ymwybyddiaeth a darparu canllawiau clir ac ymarferol i sicrhau y gall busnesau bach a chanolig gydymffurfio’n effeithiol.

## PRIF GEISIADAU

- **Lobïo a gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu a gweithredu cynllun trwyddedu ar draws y DU ar gyfer y sector adeiladu.**
- **Darparu canllawiau ac arweiniad clir, perthnasol i helpu busnesau bach a chanolig lywio a chydymffurfio â deddfwriaeth newydd ar ddiogelwch adeiladau.**

FEDERATION OF
MASTER
BUILDERS

Est. 1941

Wedi'i sefydlu yn 1941, Ffederasiwn y Meistri Adeiladu (yr FMB) yw'r gymdeithas fasnach fwyaf yn y diwydiant adeiladu yn y DU, gan gynrychioli buddiannau cwmnïau adeiladu micro, bach a chanolig. Mae'r FMB yn annibynnol ac yn ddielw, ac yn lobïo dros fuddiannau ei aelodau ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r FMB yn ffynhonnell o wybodaeth, cyngor proffesiynol a chymorth i'w aelodau, gan ddarparu ystod o wasanaethau adeiladu busnes modern a pherthnasol i'w helpu i lwyddo.

Ewch i **fmb.org.uk** am fwy o wybodaeth.